Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales



Adroddiad Blynyddol 2025-26

Fersiwn Pobl Ifanc

www.complantcymru.org.uk

Croeso

Pwy ydyn ni?





Rocio Cifuentes,
Comisiynydd Plant Cymru

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn sefyll dros hawliau plant a phobl ifanc ledled Cymru.

Rydyn ni'n gwrando ar yr hyn mae pobl ifanc yn ei ddweud, yn helpu i ddatrys problemau ac yn herio'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau pan fydd angen i bethau newid.

Fe wnaethon ni wrando ar **bobl ifanc**

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Ar draws Cymru, fe helpodd eich barn chi i siapio ein gwaith

Fe wnaethon ni ymweld ag ysgolion, grwpiau ieuenctid, sefydliadau cymunedol a digwyddiadau.

Fe wnaethon ni siarad gyda gofalwyr ifanc, plant anabl, grwpiau ffydd, Sgowtiaid, Geidiaid a llawer mwy.





54
ymweliad ledled Cymru

4,500+
o blant a phobl ifanc wedi cwrdd â ni

11,600+
o bobl ifanc wedi rhannu eu barn

Cafodd barn ei chasglu drwy arolygon, gweithgareddau ar-lein a sgyrsiau wyneb yn wyneb.


Fe wnaethon ni helpu plant a phobl ifanc i ddeall eu hawliau



Fe wnaethon ni gyflwyno hyfforddiant ar hawliau plant mewn ysgolion, colegau a grwpiau ieuenctid.

Fe wnaethon ni weithio gyda dros 1,000 o Lysgenhadon Gwych a dros 2,500 o blant ar-lein.

Fe wnaethon ni hefyd greu adnoddau newydd i helpu pobl ifanc i ddysgu am eu hawliau.



Mae gwybod eich hawliau yn gallu eich helpu i godi llais

1. Gwrando
2. Esbonio hawliau
3. Archwilio opsiynau
4. Cynghori neu ymyrryd
5. Gwneud gwahaniaeth

Sut gwnaethon ni helpu plant a phobl ifanc?

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Cyngor cyfrinachol, annibynnol pan fydd hawliau ddim yn cael eu parchu

Mae ein Tîm Cyngor a Chymorth yn helpu plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr pan fydd hawliau ddim yn cael eu parchu.



634
o achosion

607
ymholiadau newydd

1. Gwrando
2. Esbonio hawliau
3. Archwilio opsiynau
4. Cynghori
5. Gwneud gwahaniaeth

Rydyn ni'n gweithio er mwyn amddiffyn hawliau plant:

- i gael eu clywed
- i gael eu trin yn deg
- i fod yn ddiogel
- i gael eu cefnogi

Enghreifftiau o sut gwnaethon ni helpu

- Cefnogi plant oedd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol.
- Helpu pobl ifanc i gael y cymorth oedd ei angen arnyn nhw.
- Eiriol dros blant mewn prosesau cynllunio gofal.

Fe wnaethon ni gefnogi plant a theuluoedd ym mhob un o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

Fe wnaethon ni godi llais am faterion pwysig

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Fe ddywedodd plant a phobl ifanc wrthon ni beth sydd angen sylw.

Fe wnaethon ni godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc ledled Cymru a defnyddio'r hyn glywson ni er mwyn herio'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau.

- Iechyd meddwl
- Bwlio a gwahaniaethu
- Hiliaeth
- Tai a digartrefedd
- Tlodi plant
- Cyfryngau cymdeithasol ac amser sgrin
- Diogelwch ac amddiffyn
- Effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc



BETH SYDD ANGEN NEWID?

Rydyn ni'n galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy dros blant a phobl ifanc.

1. Tlodi

Mae gormod o blant a phobl ifanc yn byw mewn tlodi. Rydyn ni eisiau:

- Mwy o gymorth i deuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd yn ariannol.
- Mynediad gwell at brydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd.
- Mwy o gymorth i blant sy'n cael problemau o ran tai neu ddigartrefedd.

2. Addysg

Rydyn ni eisiau:

- Gwell cymorth i ddysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Ffyrdd haws i blant a theuluoedd godi pryderon.
- Ysgolion lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, eu parchu a'u cefnogi.

3. Bwlio a Gwahaniaethu

Dywedodd pobl ifanc wrthon ni fod bwlio, hiliaeth a mathau eraill o wahaniaethu'n dal i ddigwydd. Rydyn ni eisiau:

- i ysgolion gofnodi ac ymateb yn briodol i fwlio.
- gwell cymorth i bobl ifanc sy'n profi gwahaniaethu.
- mwy o ddysgu am gydraddoldeb, cynhwysiant a pharch.

4. Iechyd Meddwl

Mae iechyd meddwl yn dal i fod yn un o'r pryderon mwyaf i bobl ifanc. Rydyn ni eisiau:

- Mynediad cyflymach at gymorth.
- Gwasanaethau sydd ar gael pan fydd eu hangen ar bobl ifanc.
- Mwy o fuddsoddiad mewn cymorth iechyd meddwl.

5. Trafnidiaeth

Dywedodd pobl ifanc wrthon ni fod teithio'n gallu bod yn ddrud ac yn anodd. Rydyn ni eisiau:

- Teithiau mwy diogel.
- Gweithio tuag at wneud trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i blant a phobl ifanc.
- Gwell mynediad at addysg, gwaith a gweithgareddau.

6. Gofal Cymdeithasol

Rydyn ni eisiau i blant a phobl ifanc mewn gofal:

- fod yn rhan o benderfyniadau am eu bywydau.
- gael mynediad at brofiad gwaith a chyfleoedd gyrfa.

EIN NEGES FAWR

Rydyn ni am wneud hawliau plant yn rhan o'r gyfraith yng Nghymru fel bod rhaid i bawb wireddu hawliau plant.Mae hyn yn golygu rhoi babanod, plant a phobl ifanc wrth wraidd penderfyniadau.

Dylai arweinwyr wrando ar brofiadau plant a phobl ifanc, parchu eu hawliau a chymryd camau i wneud bywyd yn well i bob plentyn.

Ffôn: 01792 765600
Rhadffôn: 0808 801 1000
E-bost: post@complantcymru.org.uk

Mae dy lais di'n cyfri

Mae'r newidiadau rydyn ni'n galw amdanyn nhw'n seiliedig ar yr hyn ddywedodd plant a phobl ifanc ledled Cymru wrthon ni.